


# Arolygiad CEF Y Parc



Ymwelodd yr arolygwyr â'r carchar hwn ym mis Ionawr 2025.



Roedden ni eisiau gwybod a oedd pethau'n well, yr un fath neu'n waeth i garcharorion ers ein hymweliad diwethaf yn 2022.



Gwnaethom hyn drwy:

- edrych o gwmpas y carchar
- gofyn i garcharorion a staff lenwi holiadur
- siarad â charcharorion
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau

# Beth wnaethom ni ei ganfod?



**Nid oedd carcharorion yn teimlo'n ddiogel. Roedd llawer o drais a gormod o gyffuriau. Roedd gormod o garcharorion yn niweidio eu hunain.**
Fe wnaethon ni roi 1 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Nid oedd carcharorion yn cael digon o gymorth gan staff. Doedd y bwyd ddim yn ddigon da. Roedd yn anodd i garcharorion gael y gofal iechyd yr oedd ei angen arnynt.**
Fe wnaethon ni roi 2 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Nid oedd digon o garcharorion yn mynd i addysg a gwaith. Nid oedd rhywfaint o'r addysgu'n ddigon da. Nid oedd carcharorion yn gallu defnyddio'r llyfrgell yn ddigon aml.**
Fe wnaethon ni roi 2 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Nid oedd carcharorion yn cael digon o help i newid eu hymddygiad pan oeddent yn y carchar.**
Fe wnaethon ni roi 2 allan o 4 i'r carchar am hyn.


# Beth ddylai'r carchar ei wneud?



Rydym ni eisiau i'r cyfarwyddwr ddarllen ein hadroddiad. Mae'r adroddiad ar gael yn llyfrgell y carchar.

Rydym ni eisiau i'r cyfarwyddwr wneud cynllun. Dylai'r cynllun ddweud wrthym sut byddan nhw'n datrys y problemau yn CEF Y Parc ac yn gwneud pethau'n well i garcharorion.


# Beth ydym ni eisiau ei weld yn digwydd?



Rydym ni eisiau i'r carchar wneud mwy i ddatrys y problemau gyda thrais.




Rydym ni eisiau i'r carchar wneud yn siŵr bod llai o gyffuriau anghyfreithlon yn mynd i mewn i'r carchar.



Rydym ni eisiau i'r carchar wneud mwy i atal carcharorion rhag niweidio eu hunain.




Rydym ni eisiau i garcharorion allu cael apwyntiadau meddygol. Rydym ni eisiau iddyn nhw gael help gydag iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau.




Rydym ni eisiau i garcharorion fynd i addysg a gwaith. Rydym ni eisiau i'r addysgu fod yn well.



Rydym ni eisiau i'r carchar wneud mwy i helpu carcharorion i newid eu hymddygiad.




Rydym ni eisiau i garcharorion allu siarad â swyddog sy'n eu hadnabod yn amlach.



Rydym ni eisiau i'r prydau bwyd fod yn well. Rydym ni eisiau i garcharorion allu prynu pethau iach o'r siop.



Rydym ni eisiau i staff ymateb yn gyflym i geisiadau a chwynion carcharorion. Rydym ni eisiau i'r atebion fod yn ddefnyddiol.




Rydym ni eisiau i garcharorion allu fynd i’r llyfrgell yn fwy aml.




Rydym ni eisiau i’r carchar wneud mwy i wneud yn siŵr nad yw carcharorion yn gallu niweidio pobl, fel ffrindiau a theulu neu aelodau o’r cyhoedd.

## Beth fyddwn ni’n ei wneud?



Byddwn yn dod yn ôl ymhen ychydig o flynyddoedd i weld pa mor dda mae’r carchar yn ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth fyddwn ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU